

y Gaer Interpretation Project for Powys CC	
English to Welsh translation request No 22	
English	Cymraeg
Int51 DL33	
Chapel subscription envelope	Amlen tanysgrifiad capel
This envelope was used in 1909 for monthly subscriptions from members of the congregation at Kensington Baptist Chapel in Brecon. All Baptist chapels or churches are self-governing and self-financing. Founded in the 1820s with a chapel and schoolroom and now called Kensington Baptist Church, it remains an active place of worship. 2016.62.14.1	Defnyddiwyd yr amlen hon ym 1909 ar gyfer tanysgrifiadau misol gan aelodau cynulleidfa Capel y Bedyddwyr Kensington yn Aberhonddu. Mae pob un o gapeli neu eglwysi'r Bedyddwyr yn llywodraethu ac yn ariannu eu hunain. Fe'i sefydlwyd yn yr 1820au gyda chapel ac ysgoldy ac mae bellach yn dwyn yr enw Eglwys y Bedyddwyr Kensington. Mae'n parhau'n lle addoli gweithgar hyd heddiw. 2016.62.14.1
Int63 DL12	
Cast-iron oven door	Drws popty o haearn bwrw
This 19th century cast-iron door for a domestic oven was made in the Ynysgedwyn Ironworks, Ystradgynlais. Its well-designed details include a brass handle and a large crane bird. The crane was the trademark used by George Crane, a leading ironmaster, who came to Ystradgynlais in the 1820s and developed innovative ironmaking techniques. Gift Mrs W Ware, Ystradgynlais - 88	Gwnaed y drws popty haearn bwrw hwn yng Ngwaith Haearn Ynysgedwyn, Ystradgynlais yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Fe'i gwnaed ar gyfer ffwrn gartref ac mae ei fanylion celfydd yn cynnwys dolen bres ac aderyn garan mawr. Y crëyr oedd y nod masnach a ddefnyddiwyd gan George Crane, haearnfeistr blaengar a ddaeth i Ystradgynlais yn yr 1820au hwyr a datblygu technegau gwneud haearn arloesol. Rhodd gan Mrs W Ware, Ystradgynlais - 88
Int84 DL12	
Miner's helmet	Helmed Glöwr
This coal miner's helmet from the early 1950s, with attached lamp, was found at Ystradgynlais. The users name 'Don' is carved under the brim. Made by the Thetford Patent Pulp Manufacturing Company, Norfolk, before hard plastics became commonplace. The hard material is made from a mixture of paper, rags and wood pulp, then soaked in linseed oil and resin, then painted and varnished. Gift Mr C. Havard, Brecon – 595.1	Darganfuwyd yr helmed glöwr hon o'r 1950au cynnar yn Ystradgynlais. Mae ganddi lamp ac mae enw'r defnyddiwr 'Don' wedi ei gerfio o dan y cantel. Fe'i gwnaed gan y Thetford Patent Pulp Manufacturing Company, Norfolk cyn i blastig cadarn ddod yn gyffredin. Mae'r defnydd cadarn yn cael ei wneud o gymysgedd o bapur, clytiau a charpiau, a mwydion coed. Wedyn mae'n cael ei drwytho mewn olew had llin a resin. Wedi hynny mae'n cael ei beintio a'i farneisio. Rhodd oddi wrth Mr C. Havard, Aberhonddu - 595.1
Int96 DL13	
Blast bellows	Megin chwyth
These 19th century single-blast bellows were used at a blacksmith's forge in	Mae'r fegin chwyth unigol hon yn dyddio o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg ac fe'i defnyddid

<p>Talgarth. The large side handle moves the central circular section of the bellows up and down between the fixed ends at the top and bottom, forcing air out through the leather tube to supply the blacksmith's fire.</p> <p>Collected Officially – 1043.4</p>	<p>mewn gefail gof yn Nhalgarth. Mae'r braich ochr fawr yn symud y rhan gylchog sydd yng nghanol y fegin i fyny ac i lawr rhwng y pennau sefydlog. Mae hwn yn gwthio aer allan trwy'r biben ledr i wyntyllu tân y gof. Casglwyd yn swyddogol - 1043.4</p>
Int99 DL12	
<p>Miner's sandwich box</p> <p>A metal tin box, known as a snap tin or tommy box, was commonly used by miners in the early 20th century to take food down the coal mine. The tight-fitting lid protected the food from dust, mine water and even rats. It was a chance for miners to rest during their arduous shift.</p> <p>Gift Mr & Mrs Harcombe - 1160.16</p>	<p>Bocs brechdan glöwr</p> <p>Blwch tun metal, a adwaenid fel tun snap neu focs tomi. Fe'i defnyddid yn gyffredin gan lowyr yn gynnar yn yr ugeinfed ganrif i fynd â bwyd i lawr y pyllau glo. Mae'r caead tynn yn diogelu'r bwyd rhag llwch, dŵr y pyllau glo a llygod mawr hyd yn oed. Roedd yn gyfle i lowyr orffwys yn ystod eu sifft llafurus.</p> <p>Rhodd oddi wrth Mr a Mrs Harcombe - 1160.16</p>
Int106 DL10	
<p>Tallboy cupboard</p> <p>This practical and well-designed tallboy comprises a chest of drawers with a cupboard above. It was made by Brynmawr Furniture Makers, a factory set up as part of the Quaker-led effort to tackle high unemployment in the 1930s. Its simple style is typical of the factory's chief designer, Paul Matt.</p> <p>Gift Mr D. Robson – 1995.13.2</p>	<p>Cwpwrdd Deuddarn</p> <p>Mae'r cwpwrdd deuddarn ymarferol a lluniaidd hwn yn cynnwys cist ddillad gyda chwprdd uwchben. Fe'i gwnaed gan Wneuthurwyr Dodrefn Brynmawr, ffatri a sefydlwyd fel rhan o ymdrech a arweiniwyd gan y Crynwyr i fynd i'r afael â diweithdra uchel yn y 1930au. Mae ei arddull syml yn nodweddiadol o brif ddyluniwr y ffatri, Paul Matt.</p> <p>Rhodd oddi wrth Mr D. Robson – 1995.13.2</p>
Int107 DL10	
<p>Dressing table</p> <p>This attractive dressing table in a straightforward design was made by the Brynmawr Furniture Makers in the 1930s. Brynmawr furniture was designed to be simple to construct, as the workers were initially all unskilled. The main wood used was imported oak, finished with a coat of clear wax.</p> <p>Gift Mr D. Robson – 1995.13.3.1</p>	<p>BWRDD GWISGO</p> <p>Gwnaed y bwrdd gwisgo deniadol hwn mewn cynllun syml ac uniongyrchol gan Wneuthurwyr Dodrefn Brynmawr yn y 1930au. Dyluniwyd dodrefn Brynmawr fel ei fod yn hawdd adeiladu oherwydd bod y gweithwyr i gyd yn ddi-greffft ar y dechrau. Derwen wedi'i mewnfurio oedd y prif bren a ddefnyddid, wedi'i gorffen â chôt o gwyr clir.</p> <p>Rhodd oddi wrth Mr D. Robson – 1995.13.3.1</p>
Int115 DL12	
<p>Miner's safety lamp</p> <p>The 'Cambrian Safety Lamp' was manufactured by Thomas and Wilkins of Aberdare around 1920. The firm still produces a variant of this safety lamp</p>	<p>Lamp ddiogelwch glöwr</p> <p>Cynhyrchwyd y 'Lamp Ddiogelwch Cambrian' gan Thomas a Wilkins o Aberdâr tua 1920. Mae'r cwmni'n dal i gynhyrchu amrywiad o'r lamp ddiogelwch hon ac mae'n cael ei</p>

<p>which is used worldwide in coal mines. The flame in the oil lamp burns with a different colour or is extinguished in the presence of potentially dangerous gases.</p> <p>Gift Mr & Mrs Roese - 2001.6.12</p>	<p>defnyddio ledled y byd mewn pyllau glo. Mae'r fflam yn y lamp olew yn llosgi mewn lliw gwahanol, neu'n diffodd os bydd nwyon peryglus gerllaw.</p> <p>Rhodd oddi wrth Mr a Mrs Roese - 2001.6.12</p>
Int116 DL12	
Miner's carbide lamp	Lamp Garbid Glöwr
<p>This 19th century carbide lamp with its once-shiny reflector would have produced a bright white light much brighter than a conventional safety lamp. Water and carbide within the body of the lamp reacted to produce acetylene gas which burned at the outlet pipe visible in front of the reflector.</p> <p>Gift Mr & Mrs Roese - 2001.6.13</p>	<p>Mae'r lamp garbid hon yn dyddio o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg. Gyda'i gwydr adlewyrchu, a oedd yn sgleiniog, byddai wedi cynhyrchu goleuni gwyn gloyw a oedd yn llawer mwy llachar na lamp ddiogelwch gonfensiynol. Roedd dŵr a charbid oddi mewn i gorff y lamp yn adweithio i gynhyrchu nwy asetilen a oedd yn llosgi yn y beipen a oedd i'w weld o flaen y gwydr adlewyrchu. Rhodd oddi wrth Mr a Mrs Roese - 2001.6.13</p>
Int208 DL02	
Gaol leg irons	Haearnau coes o garchar
<p>A pair of leg irons together with a key inscribed 'Brecon Gaol', probably 19th century. The leg irons would be locked around the ankles of a prisoner and often used on prisoners in transit. They would have been joined by a chain either to each other or to a fixed anchor point.</p> <p>Mr W. Smith, Brecon - 169</p>	<p>Pâr o haearnau coes ac allwedd yn dangos arysgrifen 'Brecon Gaol' arnynt. Mae'n debyg eu bod yn dyddio o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg. Byddai'r haearnau coes yn cael eu cloi am fferau carcharwr a'u defnyddio arnynt wrth eu symud o'r naill le i'r llall. Roedden nhw'n cael eu cysylltu gyda chadwyn, un ai â'i gilydd, neu â phwynt angor sefydlog.</p> <p>Mr W. Smith, Aberhonddu - 169</p>
Cyflwynwyd gan: Liz Bickerton	Dyddiad: 01/03/2020
GEIRIAU 524	
Cwblhawyd gan:	